

# Cyngor Tref Pwllheli

---

## DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, 7fed o Dachwedd, 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

**Cof; - 0111/19** - Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, Mici Plwm, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar, A Williams, Mike Parry, Ffiona Adams, Michael Sol Owen, Dylan Bullard, D. O. Jones .

Clerc E. Price.

.....

**Cof; - 0211/19** - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; E. J. Hughes, Parc Ioan Gruffydd, Hefin Underwood, Henry Rees Williams.

.....

**Cof; - 0311/19** - Datgan Diddordeb.

Cyng. Dyllan Bullard Cofnod 17.

.....

**Cof; - 0411/19** - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

.....

**Cof; - 0511/19** - Gair gan y Maer.

Gair gan y Maer yn y llyfr cofnodion.

.....

**Cof;-0611/19** - Materion cyfansoddiadol a staff.

- Cylch gorchwyl pwyllgorau Ariannol, Wi Fi a Mwynderau.

Penderfynu derbyn.

- Rhaglen mynd allan i gynghorwyr trwy e-byst.

Penderfynu cytuno.

.....

**Cof; - 0711/19** - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Hydref, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.  
Cadarnhawyd penderfyniadau cyfarfod mwynderau.

.....

**Cof;- 0811/19** - Adroddiad clerch.

- Mae 170 wedi ymuno a Wi Fi'r dref gyda rhai yn ei ddefnyddio am dros awr y diwrnod.
- Rwyf wedi cysylltu ar Heddlu parthed fandaleiddio blodau sydd yn un twb.
- Mae cyfarfod ffurfiol wedi bod gyda'r Heddlu. Braf oedd clywed bod gostwng cyffredinol o 10% mewn troseddu ym Mhwllheli.
- Bydd cerbyd y Samariaid ar y Maes ym Mhwllheli 27/11 rhwng 9-3.
- Mae rhagor o gostau ar y Siambr. Llechi disgyn o'r to a gorlif lawr peipen draen.

Mae banciau yn cysoni. Maer wedi gweld y ddogfen berthnasol.

.....

**Cof;-0911/19**

a) Archwilwyr allanol.

Mae adroddiad y BDO (Archwilwyr allanol) wedi cyrraedd. Wedi trafodaeth penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan fod y materion a godwyd yn rhai man ac wedi eu datrys.

b) cyllid draft 2020-21.

Penderfynu cael rhagor o drafodaeth yn cyfarfod is bwyllgor ariannol 13/11/19.

Penderfynwyd ychwanegu Cyng. Mike Parry fel aelod o'r is bwyllgor ariannol.

Tra yn gaeedig cytunwyd llythyru'r BDO parthed rhai materion.

.....

**Cof;-1011/19** - Cynllunio.

- Dileu rhai ffonau talu cyhoeddus. Gwybodaeth yn unig.
- C19/1007/45/HY - Gosod 4 arwydd newydd wedi eu goleuo'n allanol - 11-13, Stryd Penlan, Pwllheli. LL53 5DH. Gwrthwynebu. Y cyngor yn gwrthwynebu goleuo allanol yn y dref yn gyffredinol.
- C19/1010/45/CR - addasiadau mewnol ynghyd ag amnewid 4 arwydd. - 11-13, Stryd Penlan, Pwllheli. LL53 5DH. Gwrthwynebu - adeilad Rhestredig.
- C19/1009/45/LL - Newid defnydd siop yn barlwr tatws. - 11-13, Stryd Penlan, Pwllheli. LL53 5DH. Dim gwrthwynebiad.

**Cof;-1111/19** - Safle bws ASDA.

Penderfynu cael asesiad annibynnol.

.....

**Cof;-1211/19** - Goleuadau Nadolig.

Penderfynu archebu goleuadau i roi ar y coed o flaen Costa. Clerc Wedi trafod cyfraniad gan Gosta. Trafodaethau yn parhau.

.....

**Cof;-1311/19** - Bompren Bont Solomon.

Clerc yn adrodd i'r contractwyr cael eu galwn nôl oherwydd i'r coed sydd ar draws disgyn wrth i blant sefyll arnynt. Hyn oherwydd i'r scriws defnyddiwyd fod yn rhy fyr.

.....

**Cof; - 1411/19** - Ffurflen nawdd ariannol ar y bwrdd . Mae wedi ei newid i ofyn am dystiolaeth o sut mae cyfraniad ariannol gan y Cyngor wedi ei wario a nodi unrhyw wahaniaeth i'r mudiad.

Derbyn y newidiadau. Clerc i yrru'r ffurflen trwy e-bost i'r Cynghorwyr.

.....

**Cof;- 1511/19** - Gwefru cerbydau trydan.

Penderfynu gofyn i berchennog y busnes ddod i wneud cyflwyniad i'r Cyngor.

.....

**Cof;-1611/19** - Coed yn tyfu ar safle bws Pwllheli sydd yn rhwystredig i barcio bws. Cyng. Ffiona Adams.

Dim byd rhagor i adrodd. Bydd yn flwyddyn nesaf cyn i'r gwaith digwydd.

.....

**Cof;-1711/19** - Polisi Iaith Adra. Cyng. Dr Iwan Edgar.

Penderfynu llythyru cwmni ADRA i ofyn a ydynt am gadw at Bolisi Iaith eu hunain?. Hyn yn dilyn i ddogfennau cynllunio Frondeg fod yn bennaf Saesneg.

.....

**Cof;-1811/19** - Draeniau'r dref. Cyng. Mike Parry.

## Cyngor Tref Pwllheli

---

Cafwyd gwybodaeth bod pypmpiau wrth safle Studs dim ymlen neu dim yn rhedeg yn llawn dra llifogydd yn dilyn glaw trwm diweddar.  
Penderfynu'r clerc llythyru.  
.....

**Cof;-1911/19** - Cefnogi cael Canolfan Ddiagnosis Canser i Wynedd.

Penderfynu llythyru i gefnogi mewn egwyddor.  
.....

**Cof;-2011/19** - Adroddiad cyflwr y genedl.

Ymgyrch i sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau i heneiddio yn y byd. Comisiynydd Pobl Hyn Cymru yn galw am gydweithio ar draws y gymdeithas er mwyn sicrhau hyn.  
.....

**Cof;-2111/19** - Dathlu 75 blwyddyn ers diwedd ail ryfel byd.

Penderfynu disgwyl i edrych beth fydd y trefniadau lleol.  
.....

**Cof;-2211/19** - Factory shop.

Gofyn am arweiniad gan Gomisiynydd Iaith parthed defnydd iaith Gymraeg gan fusnesai yn gyffredinol a pa waith/arweiniad sydd ar y gweill gan y comisiynydd i hyrwyddo hyn.  
.....

**Cof;-2311/19** - Cais am gyfraniad ariannol gan Glwb Rygbi Pwllheli.

Penderfynu ar gyfraniad o £1,000 at godi cysgodfa'n i'r anabl.  
.....

**Cof;-2411/19** - Dilyn penderfyniadau. Cyng. Elfed Gruffydd.

Penderfynu cadw rhestr o benderfyniadau'r Cyngor i sicrhau bod canlyniad iddynt.  
.....

**Cof;-2511/19** - Gwirfoddoli/ Dyblygu gwaith yn y dref.

Bydd pnawn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli 09-11-19. 1-3 y.h.  
Bydd hyn hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth am y gwaith gwirfoddoli da sydd yn y dref rag ofn bod peth gwaith yn cael eu dyblygu.  
.....

**Cof;-2611/19** - Archebu tybiau blodau i siopau'r dref.

Penderfynu bydd y Cyngor yn fodlon archebu unrhyw dwb blodau sydd angen ei

## Cyngor Tref Pwllheli

---

adnewyddu. Hyn i gynnwys y rhai sydd wedi eu mabwysiadu gan y siopau.  
.....

**Cof;-2711/19** - Sul y Cofio.

Bydd gwasanaeth yn dechrau yn Sant Pedr am 9 30 y.b.  
.....

**Cof;-2811/19** - Adroddiad Cyngorwyr o bwyllgorau/mudiadau allanol.

Bu i'r dirprwy Faer. Mici Plwm adael Rhaglen Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli a Choleg Meirion Dwyfor ar y bwrdd.  
.....

Cof;-2911/19 – Derbyniadau.

500	Rhent Adams. X dau.	CR

Cytunwyd  
.....

**Cof;-3011/19** –Taliadau.

200	Curiad calon Pwllheli.	203175
1000	Clwb Criced Pwllheli.	203176
1000	Cymdeithas Pared Dewi Sant.	203177
50	Arian parod.	203178
57.59	Tystysgrif SSL gwefan.	203179
170	Gwaith cynnal a chadw Siambr (llechi rhydd a pheipen Dwr) .	203180
1089.80	Costau gweinyddol y Siambr.	Sieciau
473.47	HMRC.	203183

Cytunwyd.

Daeth y Cyngor i ben am 8 30 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 5ed o Rhagfyr 2019.  
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 29 Tachwedd 2019.